20FED O FEHEFIN

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol



## Wythnos yma

### Gorymdaith Pride, Mehefin 21

Yfory, byddwn fel ysgol yn gorymdeithio yng ngorymdaith Pride. Mae croeso mawr i bawb! Gofynnwn i bawb gwrdd ar Stryd Westgate rhwng 10yb a 10.30yb, o flaen balwnau "Pride". Gofynnwyd i ni sicrhau bod pawb yn y man ymgynnull ac yn barod i orymdeithio erbyn 10.30yb fan hwyraf. Yn ystod yr wythnos, rydym wedi gwneud amryw o weithgareddau i ddathlu mis "Pride" ac mae nifer o ymwelwyr diddorol wedi dod i sgwrsio gyda'r disgyblion. Uchafbwynt ein gweithgareddau oedd gwisgo dillad lliwiau'r enfys i'r ysgol ac yna uno gyda'n gilydd ar yr iard i gael llun o enfys Ysgol Treganna. Ewch i'n cyfrif Instagram i weld yr holl luniau.

### Llwyddiant yn y Cwis Llyfrau

Llongyfarchiadau enfawr i griw blwyddyn 6 a wnaeth gystadlu dydd Mercher yn rownd genedlaethol y Cwis Llyfrau yn Aberystwyth. Daeth y disgyblion yn ail yn y gystadleuaeth trafod a chreu hysbyseb, 1af yn gystadleuaeth ysgrifennu broliant a 1af yn y gystadleuaeth dylunio clawr. Canlyniadau gwych! Diolch yn fawr i Mr Evans am hyfforddi'r disgyblion.

### Ymweliad Blwyddyn 4 i Ganolfan yr Urdd, Caerdydd

Rydym yn dymuno pob hwyl i ddisgyblion blwyddyn 4 sydd wedi mynd ar daith breswyl i Ganolfan yr Urdd, Caerdydd. Yn ystod y ddau ddiwrnod bydd y disgwylion yn ymweld â'r Senedd, Canolfan y Mileniwm,  mynd ar daith antur, mynd ar gwch cyflym, bowlio deg ac yn mwynhau gwylio ffilm! Diolch i'r holl staff fydd yn gofalu ar ôl y disgyblion yn ystod yr ymweliad.

## Calendr

**Gorymdaith Pride**
**21/6/25**

**Ffair Swyddi blwyddyn 6**
**26/6/25**

**Ffair Haf**
**27/6/25**

FFRINDIAU YSGOL TREGANNA

CEFNOGI EIN HYSGOL, MEITHRIN CYMUNED.
SUPPORTING OUR SCHOOL, GROWING OUR COMMUNITY.

ffrindiautreganna@gmail.com
ffrindiau_ysgol_treganna

## 1 wythnos i fynd tan y Ffair Haf!

Dewch i fwynhau prynhawn llawn hwyl yn Ffair Haf Ysgol Treganna gyda chastell bownsio, paentio wynebau, bwyd a diodydd blasus, stondinau wedi'u rhedeg gan ddisgyblion, gemau ar yr astro, a pherfformiad arbennig gan Flwyddyn 2.

Os oes gennych ychydig o amser i wirfoddoli yn ystod y prynhawn, neu os ydych chi'n hoff o bobi ac yn awyddus i greu danteithion i ni eu gwerthu, cysylltwch â ni ar **ffrindiautreganna@gmail.com** neu anfonwch neges uniongyrchol atom ar Instagram **@ffrindiau_ysgol_treganna**.

### Ein Raffl Fawr

O anturiaethau teuluol a thalebau bwytai, i nwyddau lleol a phecynnau rhodd - mae rhywbeth i bawb. Byddwn hyd yn oed yn arwerthu crys arbennig Merched UEFA. A'r peth gorau? Mae pob tocyn a werthir yn helpu i gefnogi'r gymuned anhygoel sydd gyda ni yn Ysgol Treganna. Peidiwch ag anghofio cael eich tocynnau ar y 27ain - a chroeswch eich bysedd!

**Ymunwch â ni yn y ffair ddydd Gwener 27 Mehefin rhwng 3.30pm a 5.30pm.** Bydd y mwyafrif o'n gweithgareddau yn cael eu cynnal tu allan ar dir yr ysgol, felly dewch i mewn drwy'r gatiau ochr.

---

easyfundraising

## Hoffech chi ein cefnogi AM DDIM? Dyma sut!

1. Lawrlwythwch yr ap *easyfundraising*
2. Cofrestrwch fel cefnogwr
3. Unwaith y byddwch wedi cofrestru, byddwn yn cael rhodd o £2 - heb gost i chi!

Hyd yma, ry'n ni wedi derbyn cyfanswm anhygoel o **£1,383.34** gan 149 gefnogwyr hael - diolch o galon! Mae pob ceiniog yn ein helpu. Os nad ydych wedi cael cyfle i lawrlwytho'r ap eto,

---

cymerwch ddim ond 5 munud i gwblhau'ch rhodd heddiw.

## Staff mis Medi

Dyma restr o ddosbarthiadau a staff mis Medi.

| Arweinydd Branwen<br>Emsyl Llwyd | Arweinydd Manawydan<br>Elin James | Arweinydd Pwyll<br>Erwain Alaw |
|---|---|---|
| Meithrin (Math) | | Elin James |
| Olwen – Miss Elin Evans | Bedwyr – Mrs Catrin V Smith | Mabon – Mrs Sian Healen |
| Elen – Mrs Emsyl Llwyd | Culhwch – Miss Elan Morris | Gwydion – Ms Beca Pennar |
| Blodeuwedd – Miss Catrin Rees | Llyr – Miss Sian Morgans | Arianrhod – Mrs Afryl Davies (cyfnod mamolaeth Mrs M Miles Farrier) Bydd Mrs M Miles Farrier yn dychwelyd 2/26 |
| Ceridwen – Mrs Eleri Jones | Lleu – Miss Megan Lewis | Matholwch – Mrs Liz Esau |
| Gwenhwyfar – Mrs Elin - Roberts Evans | Bendigeidfran – Ms Sara Jones | Seithennyn – Miss Nanw Jones |
| Peredur – Mrs Mari Williams | Gwern – Mrs Bethan Mair Roberts | Rhiannon – Mrs Jess Ausi |
| Morfydd – Mr Geraint Passmore | Taliesin – Miss Catrin Jones | Gronw – Mrs Erwain Alaw |

## Makaton

Dyma arwydd Makaton yr wythnos. Rydym yn annog pawb yn yr ysgol i ymarfer a defnyddio'r arwydd yn ystod yr wythnos. Diolch i ddisgyblion y dosbarth Meithrin am ddangos i ni sut i wneud yr arwyddion yma.




## Patrwm Iaith

**Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos**

Beth sydd i ginio heddiw?

I ginio heddiw mae yna…

**Her**

I ginio fory mae yna…

**Testun trafod yr wythnos**

Mae llyfrau yn well na ffilmiau - trafodwch

**Cân yr wythnos**

Tara Bandito a Band Pres Llareggub - Trw Nos

**Idiom yr wythnos**

Teimlo i'r byw